
LLAIS CYMRAEG, ANNIBYNNOL, YR YMGYRCH I BARCHU'R DDAEAR


# Y Papur Gwyrdd

Rhif 18 Mehefin / Gorffennaf 2010 www.ypapurgwyrdd.com PRIS: £1

## Cwmnïau olew yn llygru'r môr — a brwydr y glo yn poethi yng Nghymru

**Y Ddaear yn ganolog i ddau lyfr Cymraeg — gyda rhybudd am chwalfa os na chaiff ei pharchu**




ISSN 1755-3504

*Cerddi ysgytiwyd gan drais i'r blaned Ddaear — Donald Evans*
*'Colli iaith' yn achosi 'solastalgia' yng Nghymru? — Charlotte Davies*
*Tlodi tanwydd yn cyfrannu at farwolaethau — Gordon James*
*Profi ymgyrch i roi hwb i gefngwlad Bwlgaria — Sioned Haf*

*... A NEWYDDION O BELL AC AGOS AM YMGYRCH Y DDAEAR*

# Y PAPUR GWYRDD



***Llais Cymraeg, annibynnol, i'r ymgyrch i fynnu parch i'r Ddaear***

**Golygydd**: Hywel Davies
**Cyfeiriad**: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX
**Ffôn**: 01792 798162
**Ebost**: ypapurgwyrdd1@btinternet.com
**Gwefan**: www.ypapurgwyrdd.com

Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan Hywel a'r Dr Charlotte Davies (cwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.)

Argreffir Y Papur Gwyrdd yn llwyr ar bapur wedi'i ailgylchu, gan ddefnyddio inc llysieuol ar 8 o'r 12 tudalen, gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynach-log Nedd, Castell-nedd SA10 7DR.


► **ROEDD Y DIFFYG SYLW A RODDWYD I BERYGLON CYNHESU BYD-EANG YN YSTOD ETHOLIAD SAN STEFFAN YN SYFRDANOL.**

**PWYSWN I GYD AR Y LLYWODRAETH DORÏAIDD/ RHYDDFRYDOL NEWYDD I'W CYMRYD O DDIFRIF … YN GYD-DESTUN ANHEPGOR I'R HOLL OFNAU ECONOMAIDD**

# CYNNWYS


**3** NEWYDDION
Wynebu'r llysoedd am geisio atal anfadwaith Glo



LLUN: UNDERCURRENTS

**4** GOLYGYDDOL
**Hywel Davies** — Trychineb olew Gwlff Mecsico, a llwch Gwlad yr Iâ, yn rhybudd i ddynoliaeth

**5** LLENYDDIAETH
**Donald Evans** — Cerddi i'r Fam Ddaear a ysgytiwyd i fodolaeth gan y trais yn erbyn ein cartref planedol

**6** CYMDEITHAS
**Gordon James** — Mawr angen polisïau i leihau 'tlodion ynni' Cymru



**Colofn: Ennill a Cholli**
Newyddion am Frwydr y Ddaear

**7** IECHYD
**Charlotte Davies** — Colli natur, ac iaith, yn achos 'Solastalgia' yng Nghymru?

**8** RHYNGWLADOL
**Sioned Haf** — Ymuno ag ymdrech Bwlgaria i warchod cefngwlad



**Adolygiad:** *'Y Dŵr'* Lloyd Jones a *'Cartre'n y Cread'* Donald Evans

**9** PRIFYSGOL
**Enfys Evans** — Ieuenctid yn trafod sut i gyflwyno neges cynhesu byd-eang

**10** **Colofn: Daeariadur YPG**
Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i barchu'r Ddaear

**11** YMGYRCHU
**Luned Jones** — Oxfam yn cyflwyno tystiolaeth newid hinsawdd

**Colofn: Y byd a'r aelwyd**
Ymdrechion cartrefol cyhoeddwyr **YPG**

***MATRESI ORGANIG ABACA, tudalen 12***


## Y Papur Gwyrdd - yn eich siop leol neu drwy'r post

Mae'r **Papur Gwyrdd** ar werth gan lyfrwerthwyr da led-led Cymru. Ond os nad yw ar gael yn eich ardal chi, mae croeso i chi danysgrifio i'w dderbyn trwy'r post. Llanwch y ffurflen isod a'i danfon gyda'ch taliad atom:

ENW: ……………………………………………………….

CYFEIRIAD: ………………………………………………..

…………………………………… Côd Post……………..

Amgaeaf siec at '**Y Papur Gwyrdd**' am ………………..
(Unigolion: £6 am 6 rhifyn. Croesewir cyfraniadau i gynorthwyo gyda chostau postio. Sefydliadau: £8.50).

Danfonwch y ffurflen hon gyda'ch siec at:
Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX

**EDRYCHWN YMLAEN AT EICH CROESAWU FEL TANYSGRIFIWR I'R PAPUR GWYRDD**

## Cysgu er y rhybuddion i'n Byd

**Rwy'n teimlo mod i'n byw mewn ysbyty'r meddwl anferth. Nid yn unig am fod 'na ganran uchel o'r boblogaeth sy'n syml yn methu â wynebu realiti, ond am fod y rhan fwyaf o'r rhai sy'n derbyn y dystiolaeth lethol yn dal i fyw fel nad yw dynoliaeth mewn perygl. Mae hi fel ein bod i gyd yn byw mewn swyngwsg.**

**Fred Branfman, llenor amgylcheddol Americanaidd : *Utne Reader Mai / Mehefin 2010***

**CROESO I WEFAN**

## Y PAPUR GWYRDD

**www.ypapurgwyrdd.com**

**Y Porth Cymraeg i wefannau'r Ddaear — ein cartref planedol rhyfeddol**

## Galwad o Bolivia i barchu'r Ddaear

**MEWN cyfarfod rhyngwladol yn ninas Cochabamba, Bolivia, cytunwyd ar ddatganiad yn galw ar y Cenhedloedd Unedig i fabwysiadu Datganiad Hawliau'r Fam Ddaear tebyg i'r Datganiad Hawliau Dynol.**

Roedd Cynhadledd Pobl y Byd ym mis Ebrill yn ymateb byrlymus o gadarnhaol i ganlyniad siomedig Cynhadledd Hinsawdd Copenhagen.

Roedd Arlywydd Indiaidd brodorol cyntaf Bolivia, Evo Morales, wedi gwahodd caredigion y Ddaear i ddod ynghyd yn y gobaith o lunio datganiad cryf ar bwnc cynhesu byd-eang. Cafwyd ymateb tu hwnt i'r disgwyl gyda 30,000 o unigolion yn bresennol o 140 o wledydd a 48 o lywodraethau'n cael eu cynrychioli.

Lluniwyd dogfen **Cytundeb y Bobl** a bu'r Arlywydd Morales yn ei thrafod ym mis Mai gyda Ban Ki-moon, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig. Cyfeiriodd at alwad y gynhadledd am i wledydd 'datblygedig' y byd leihau allyriadau carbon o 50% erbyn 2020 o gymharu â lefelau 1990.

Ymhlith egwyddorion canolog y Datganiad a gyflwynwyd i gyfarfod o grŵp gwledydd yr G77 yn y Cenhedloedd Unedig oedd y canlynol:

Rhaid sicrhau bod lles dynoliaeth yn unol â lles y Fam Ddaear;

rhaid trefnu cyfreithiau i amddiffyn a gwarchod hawliau'r Fam Ddaear;

rhaid parchu ac adfer cylchoedd ecolegol sy'n hanfodol i'r Ddaear;

rhaid atal dynoliaeth rhag lladd rhywogaethau eraill neu ddifrodi ecosystemau;

rhaid sicrhau heddwch a chael gwared ag arfau niwclear, cemegol a biolegol;

a rhaid datblygu systemau economaidd sydd mewn harmoni â'r Fam Ddaear a'i hawliau.

Bwriad yr Arlywydd Morales yw cyflwyno syniadau **Cytundeb y Bobl** i Gynhadledd Hinsawdd Cancun a gynhelir fis Rhagfyr nesaf.

## RHAID SYMUD Y TU HWNT I YNNI FFOSILIAU ...

Mae'n anodd i'r person yn y stryd sylwi ar beth sy'n digwydd. Ond y gwir yw bod gwyddoniaeth yn dangos ein bod yn newid yr hinsawdd byd-eang a'n bod ar fin gwthio'r system y tu hwnt i bwynt naid fydd yn achosi problemau anferth i bobl ifainc heddiw ... Pan edrychwn ar danwyddau ffosil, faint o garbon sydd mewn olew, faint sydd mewn nwy, faint sydd mewn glo, gwelwn yn glir mai'r broblem fawr yw glo. Dyna'r un sydd â'r mwyaf o garbon — y tanwydd mwya brwnt ar y blaned ... Rhaid i ni symud yn gyflymach at systemau ynni y tu hwnt i ffosiliau. A rhaid i ni adael dan ddaear y rhan fwyaf o'r glo sydd ar ôl.

***Dr James Hansen, Chwefror 2010***

# Achos llys yn dilyn protest safle glo brig Ffos y fran

**MAE pennod newydd yn hanes radicaliaeth Merthyr Tudful yn cael ei hagor wrth i 18 o brotestwyr wynebu cyhuddiadau cyfreithiol yn deillio o weithred yn erbyn safle glo brig Ffos y fran a ysbrydolwyd gan y difrod a achosir i'r Ddaear trwy losgi glo.**

Ar ddydd Llun, 26 Ebrill, roedd yr 11 dyn a'r 7 o fenywod wedi clymu eu hunain ar gledrau rheilffordd mewn dau le gan atal unig dren glo'r dydd rhag teithio o Ferthyr i Bwerdy Glo Aberddawen.

Cawsant eu harestio gan yr heddlu a'u cyhuddo o Rwystro'r Rheilffordd gyda Bwriad, yn groes i Adran 35 o Ddeddf Difrod Faleisus 1861. Gallent wynebu carchar am oes o dan y ddeddf.

Mewn gwrandawiad ar bnawn Iau, 20 Mai, pennwyd dydd Iau, 8 Gorffennaf, ar gyfer y gwrandawiad nesaf yn Llys y Goron Merthyr pryd y disgwylir i'r diffynyddion gynnig eu pledion gerbron barnwr.

## Newyddion am yr achos

BYDD y cyfryngau torfol ar bapur ac ar y we yn gallu cynnig newyddion am yr achos yn fwy cyflym, wrth gwrs, na'r **Papur Gwyrdd**. Ond credwn y dylwn nodi trefniadau'r achos gan ei fod mor ganolog i'n bodolaeth fel cyhoeddiad.

Os hoffech fod ym Merthyr i fynegi'ch cefnogaeth i'r diffynyddion ar fore Iau, 8 Gorffennaf, croeso i chi ffonio Trefor am fwy o fanylion ar y rhif canlynol: 07501 614256.



**Cyfarfod yng Ngwersyll Climate Camp Cymru ger Ffos y fran ym mis Awst 2009. *LLUN: AMELIA***

## Tesco (ie, wir!) yn chwilio am dipyn o whare teg

**Y PATRWM arferol yw i siopau bach lleol gwyno wrth i Tesco symud i ardal, ac i'r cawr o gwmni archfarchnadoedd ateb bod cystadleuaeth yn beth iach i bawb.**

Ond mae'n ymddangos nad yw'r un ddadl yn dal dŵr i Tesco yn ardal Ystradgynlais ac Ystalyfera.

Yno mae Tesco'n gandryll ac yn paratoi i fynd i gyfraith gan fod cwmni archfarchnadoedd arall yn bygwth cystadlu â nhw!

Y cefndir yw bod Tesco eisoes wedi cael caniatâd gan Gyngor Sir Powys, er protestiadau masnachwyr lleol, i agor archfarchnad yn hen ffatri'r Tic Toc yn Ystradgynlais.

Ond nawr mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi rhoi caniatâd i gwmni arall agor archfarchnad fyddai'n cystadlu â Tesco yn Ystalyfera, ond ychydig filltiroedd i ffwrdd.

Y sefyllfa bellach yw bod Tesco'n defnyddio'u holl gryfder cyfreithiol i wyrdroi penderfyniad Cyngor Castell-nedd Port Talbot gyda'r nod o gael gwared â'r cystadleuydd haerllug.

Cystadleuaeth yn iach? Wel ydy, os ydy'n ffafrio Tesco!

## Gweithredu wedi siom Copenhagen

**YN dilyn siom Cynhadledd Hinsawdd Copenhagen, mae gweithredu yn erbyn llosgi ffosiliau carbon fel tanwydd ar gynnydd.**

**Meddai Kim Green o fudiad** Llanw'n Codi (DU): **'Rydym yn gwrthdystio yn erbyn llosgi tanwyddau ffosil yn wyneb yr argyfwng hinsawdd byd-eang.**

**'Mae methiant Copenhagen i ddelio â'r broblem enfawr hon, a gwendid polisi amlwg y tair prif blaid y DU i weithredu fel sydd ei angen i ddelio â'r broblem, wedi tanlinellu'r angen i bobl weithredu'n uniongyrchol ar lawr gwlad.'**

**GOLYGYDDOL** **HYWEL DAVIES**



# Trychineb olew Gwlff Mecsico — rhybudd arall o'r angen i barchu a gofalu am y Ddaear

MAE gennym ddewisiadau ynglŷn â sut y deallwn ein perthynas â'r Ddaear, y blaned yr ydym yn byw arni fel pobl.

► Gallwn gymryd y Ddaear yn ganiataol — gan gredu'n ddifeddwl bod gennym reolaeth drosti ac mai diwallu'n hanghenion ni yw rheswm ei bodolaeth.

Neu …

►Gallwn drysori'r Ddaear fel gwyrth — gan dderbyn ein bodolaeth arni fel rhan o wead rhyfeddol ei holl batrymau naturiol sy'n galw am barch a gofal.

Mae canlyniadau clir iawn i ba agwedd y dewiswn.



Yr agwedd gyntaf sydd wedi gyrru datblygiad gwareiddiad diwydiannol y Gorllewin ers sawl cenhedlaeth a chawsom rybudd clir arall yn ddiweddar, sef trychineb olew Gwlff Mecsico, bod y math o ganlyniadau sy'n deillio o hyn yn gwaethygu.

Dibynnu ar ynni rhad ac adnoddau enfawr bu cyfalafiaeth a phrynwriaeth y Gorllewin ac economeg Twf. Mae olew yn ganolog i hynny, ac mae olew'n prinhau'n gyflym.

Fel y gwyddom, yng Ngwlff Mecsico, dan amodau hynod anodd, bu British Petroleum yn suddo offer gyda chwmni Deepwater Horizon/Transocean Cyf mor ddwfn â milltir er mwyn tyllu at olew yn y gobaith o ddiwallu angen *juggernaut* yr Unol Daleithiau.

Bu ffrwydrad, lladdwyd un ar ddeg o ddynion, a rhyddhawyd miliynau o alwyni o olew o waelod y môr gan ddifrodi'r amgylchedd mewn modd enbyd.

Sobrwyd ychydig ar America. Gwelodd yr Arlywydd Barrack Obama yn dda i ail-ystyried y caniatâd yr oedd newydd ei roi i dyllu am olew oddi ar arfordir gogledd ddwyrain y wlad.

Awgrymodd hyn, efallai, ei fod ef a'i gynghorwyr yn gorfod derbyn bod terfynau i alluoedd technegol y diwydiant olew a bod sail wirioneddol i'r ofnau a fynegwyd gan yr amgylcheddwyr sy'n gwrthwynebu'r tyllu newydd.

Wedi'r ffrwydrad, meddai Wesley P. Warren, cyfarwyddwr un o'r mudiadau amgylcheddol Americanaidd, "Mae hwn yn alwad anferthol o blaid yr angen i symud y tu hwnt i olew fel ffynhonnell tanwydd."

Neges yr amgylcheddwyr fu i'r Arlywydd Obama beidio â chaniatáu rhwygo'r Ddaear ymhellach, ond, yn hytrach, i droi at leihau defnydd ynni ac at ddefnyddio ffyrdd o gynhyrchu ynni glan ac adnewyddol. Cyngor pobl sy'n parchu'r blaned yw hynny.


Ond, beth bynnag fydd yr halogi a achosir gan Drychineb Olew Gwlff Mecsico, gallwn fod yn sicr na fydd y corfforaethau olew pwerus yn rhoi eu bwriad o'r neilltu i dyllu mewn safleoedd mwy a mwy anodd ledled y byd.

Eu cyfiawnhad yw bod angen yr ynni ar yr economi — gan fynnu mai swyddogaeth y Ddaear yw diwallu hynny, heb ots am y costau amrywiol ac anferth a ddaw. Fel y mynegwyd mewn adroddiad yn y **New York Times** (2 Mai): 'Pa mor fawr bynnag fydd yr arllwyso gan offer tyllu *Deepwater Horizon*, 50 milltir oddi ar arfordir Louisiana, mae'n annhebyg i rwystro'n ddifrifol tyllu oddiar-y-glannau yn y Gwlff. Mae angen olew ar y wlad — a'r swyddi.'

Yng ngholofnau'r wasg Americanaidd, slogan anogwyr y tyllu oedd, *"Drill, baby, drill!"* Ateb yr amgylcheddwyr nawr yw, *"Spill, baby, spill!"* Ond, er rhybudd newydd y Gwlff, ofnwn mai llais diwydiant yw'r mwyaf dylanwadol yng nghoridorau grym, gan beryglu'r Ddaear a'i holl amrywiaeth ecolegol gyda'u pwyslais ar elw.

Ein swyddogaeth ni fel pobl sy'n gwerthfawrogi gwyrth y Ddaear yw codi'n lleisiau i annog gofal a pharch i'n byd gan bendefigion gwleidyddiaeth a masnach. Pe drowyd cyfoeth a thalent y diwydiannau dinistr at y dasg o gynnal bywyd tu fewn i derfynau call, creadigol a heddychlon, gallai cymunedau dynol flodeuo o'r newydd.

Fel arall, rydym yn peryglu'n parhad ar yr unig gartref planedol sydd gennym. Dyna neges trychineb olew Gwlff Mecsico. A dyna neges y bobl ddewr fu'n gweithredu'n ddi-drais yn erbyn glo brwnt Ffos-y-fran yn



niwedd Ebrill. Diolch iddynt.

## Cwestiwn ar y daith ...

OS teimlwch dinc Americanaidd i'r sylwadau uchaf, esboniwn iddynt gael eu llunio yn ystod ymweliad â'n teulu yn Ne Carolina. Bu'r broses o gyrraedd yno'n brofiad o fath arall sydd wedi'n hatgoffa i beidio â chymryd y Ddaear yn ganiataol: gohiriwyd ein hedfan am wythnos oherwydd effaith llwch Eyjafjallajoekull, y llosgfynydd yng Ngwlad yr Ia. (Yn ddigon eironig, llun ohonof yng Ngwlad yr Iâ yw'r llun sy'n coroni tudalen Golygyddol **YPG**!)

Fel y gwyddom, achoswyd anrhefn i fywydau miliynau o bobl wrth i hedfan dros Ewrop ddod i ben am gyfnod. Daliwyd tua 130,000 o bobl o wledydd Prydain yn unig ledled y byd, gyda thripiau ysgol yn eu plith.

Gan wybod am y niwed amgylcheddol a wneir gan y llu nefol o awyrennau, onid yw'n hen bryd i ni ystyried ffyrdd eraill llai dinistriol o deithio yn lle troi at hedfan mor aml am ei bod, yn ymddangosiadol, mor rhad?

*[Amdanom ni'n deuluol, yn wyneb y niwed mae hedfan i America ac yn ôl yn achosi i'n Daear, ein polisi yw cadw allan o awyrennau am weddill y flwyddyn. Trenau amdani. Meddyliwch — heb son am bopeth arall — rydym*

## GWIR GOST Y BYD ARFOG

Golyga pob dryll a wneir, pob llong ryfel gaiff ei lansio, a phob roced, yn y pendraw, ladrad oddi wrth rheiny sy'n newynu ac sydd heb gael eu bwydo, oddi wrth rheiny sy'n oer a heb gael eu dilladu. Nid gwario arian yn unig mae'r byd arfog. Mae'n gwario chwys ei weithwyr, athrylith ei wyddonwyr, gobaith ei blant.

*Yr Arlywydd Gadfridog Dwight D. Eisenhower 1953*

Y PRIFARDD DR DONALD EVANS YN TRAFOD EI GYFROL NEWYDD SY'N 'GÂN O FAWL I'R FAM DDAEAR'

'CARTRE'N Y CREAD'

# Mynnu cariad at y blaned yr 'Hannwn i gyd ohoni'

TEITL cyfrol farddoniaeth o'm heiddo, a gyhoeddwyd gan Wasg Gomer, Llandysul, gychwyn Mawrth eleni, yw'r pennawd uchod, ac felly trafodaeth yw'r erthygl yma ar ei chefndir creadigol, sef y berthynas rhwng dyn a'i amgylchfyd ar hyn o bryd.


'Dyma'r gyfrol amserol o farddoniaeth — a'i thestun mor hen ag amser ei hun. Cân o foliant i'r Fam Ddaear yw'r cerddi hyn, ac fe'i hysgogwyd gan y cynhesu-byd eang sy'n bygwth y blaned a'i phobl yn feunyddiol' — dyna gychwyniad broliant y gyfrol.

Ystyr y datganiad yw nad y math o gerddi natur rhamantaidd arferol i'w harddwch a'i gwychder yn benodol mo'r cynnwys, ond yn hytrach farddoniaeth a ysgytiwyd i fodolaeth gan lygredd y trais a gyflawnwyd gan yr hil ddynol, ers meitin bellach, ar yr unig gartref a fedd o fewn holl feithderau anial y greadigaeth.

Yn awr, golygu hyn fod dyn, yn gyffredinol, o dan gymhellion y fateroliaeth sydd ohoni wedi ymddieithrio cymaint oddi wrth ei gynefin unigryw, fel ag i fod yn hollol barod i'w aberthu ar allor tymor byr ei drachwant cyfoes. Ac yn waeth na hynny erbyn hyn, yn dal ymlaen ar y cyfryw dac, er gwybod yn rhy dda am y canlyniadau echryslon a fedr ddeillio ohono.

A siarad yn nhermau seiciatreg am ennyd, yn wir y mae'r holl senario'n enghraifft go alaethus o symptomau seicosis.

Ond er hyn oll, nid pregethu ynglŷn â difrifoldeb y sefyllfa a wneir yn y gyfrol, eithr dangos ei hynfydrwydd drwy glodfori gwahanol ffasedau gwyrthiol y Fam Ddaear a ddolurir ganddi, ceisio amlygu drwy gyfrwng moliant y dinistr gwallgof sy'n rhuthro rhagddo, drwy dybio fod y cyfryw ddull yn fwy effeithiol arf i'w herio na chrochlefain yn ddiddiwedd am ei nwyon a'i wenwyn.



'Mor ddibarch yn ei harcholl
Yw'r un Fam gywreiniaf oll'

Gyda'r cynllun yma'r oedd datgelu orau, yn yr argyfwng presennol, fireinder anghymharol amryfal gyfundrefnau'r blaned a'u modd cwbwl anhygoel o weithredu.

Dyma'r agweddau a ddadlennwyd inni gan wyddoniaeth, y rhyfeddodau hynny o'i chychwyniad aeonau'n ôl drwy gydol ei datblygiad ar hyd y cynoesoedd, hyd at egnïon ac elfennau, daearyddiaeth a myrdd firaglau ei hathrylith bresennol. A'r wyddoniaeth hon hefyd, erbyn hyn, sydd wedi amlygu effeithiau dirgel y difrod a wnaed iddynt gan ddyn, er dros ddwy ganrif o leiaf bellach, yn fras oddi ar dechreuad y Chwyldro Diwydiannol.

Yn hyn oll, ymchwilydd yw'r gwyddonydd sy'n treiddio dan arwyneb yr ymddangosiadau allanol i ddarganfod y gwirioneddau mawr diymwad sy'n llechu yn y craidd.

Yn y goleuni yma y mae canfod a sylweddoli pa mor wirioneddol gyntefig gywrain yw strwythur ac adeiladwaith y blaned, y cyntefigrwydd organaidd a ddeil mor gynhaliol amyneddgar drwy'n holl fradwriaeth, ond eto na edy i neb chwaith anghofio'r grymusterau aruthr sy'n nythu yn ei blygion, y cyntefigrwydd sy'n sylfaen ein gwareiddiad modern, ac mor enbyd o agos ato bob amser.

Ac ar y llwyfan dihafal hwn a'i gefndir y mae llygru'r dwthwn yn ymhyrddio'n ei flaen. Eithr yn eironig ddigon hefyd, y mae 'na gymunedau a gwerinoedd maethlon ledled y blaned sy'n dal i gyd-fyw'n iachus o rinweddol â hi yn ei chyfanrwydd, y teip o gydrythmio sydd fel pe'n ei chrynhoi ynghyd yn un filltir sgwâr o ddaearen.

Yn yr ysbryd yma y dewiswyd cyflwyno'r gyfrol i'm dwy wyres fechan, Awen Onwy bumoed a Gwenllian Onwy deiroed, 'dwy o genhedlaeth etifeddol y 'cartre'', yn y gobaith y sylweddola'r tô presennol ei gamwri mewn pryd, ac y bydd y genhedlaeth ifanc nesaf yn caru'r Fam gyda mwy o angerdd glendid na'i rhagflaenwyr, adeg y gall hithau edrych yn ôl ar hen 'ffaeleddau'i phlant yn ddaear o faddeuant'.

**DONALD EVANS**

**► 'Cartre'n y Cread. Cerddi Moliant i'r Fam Ddaear', Gwasg Gomer, Llandysul**

## Anelu at wlad 'Carbon Sero'

**MAE fersiwn newydd yn cael ei lansio o un o'r cyhoeddiadau diweddar mwyaf dylanwadol ar bwnc y bygythiad i'r Ddaear, sef** Zero Carbon Britain **a ddatblygwyd gan Ganolfan y Dechnoleg Amgen yng Nghorris ger Machynlleth.**

**Meddai Paul Allen o'r Ganolfan amdano, "Mae gwyddoniaeth hinsawdd yn mynnu ein bod yn gweithredu i leihau ein hallyriadau. Mae'r dechnoleg yn dweud ein bod yn gallu. Nawr yw'r amser i fynd ati."**

**Cafwyd canmoliaeth gan y gwyddonydd hinsawdd blaenllaw o Aberdyfi, Syr John Houghton, "Mae awduron** ZCB **yn cynnig amserlen gweithredu sy'n dechrau nawr. Rwy'n canmol eu dychymyg a'u hymarferoldeb, eu gweledigaeth eang a'u hymdeimlad o argyfwng."**

**Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 2007 yn defnyddio syniadau'r Economeg Newydd i awgrymu economïau lleol sy'n defnyddio ynni datganoledig, adnewyddol, di-garbon:**

**"Mae gan bob cae, coedwig, ynys, afon, arfordir, ysgubor neu adeilad y potensial i greu ynni ac incwm gyda thechnolegau addas i bob lleoliad a meintioli."**

**Bwriedir lansio'r adroddiad yn y Ganolfan ar Fehefin 16.**

## RHAID GWARIO LLAWER I WELLA EFFEITHLONRWYDD YNNI CARTREFI

# Tlodi tanwydd yn costio bywydau

**Y LLYNEDD, profodd dros chwarter cartrefi Cymru 'dlodi tanwydd', sef trwy orfod gwario dros 10% o'r incwm teuluol ar sicrhau gwresogi boddhaol.**

Bu 2,500 yn fwy o farwolaethau gaeaf yng Nghymru o ganlyniad i dlodi tanwydd yn 2008/9 – y nifer uchaf mewn degawd.

Yn dilyn gostyngiad graddol hyd at 2004, dangosodd trafodaethau tlodi diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru fod cynnydd sylweddol wedi bod ers hynny yn nifer y cartrefi sy'n cael anhawster i gadw'n gynnes a thalu eu biliau ynni.

Mae hyn er ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn 2003 i gael gwared â thlodi tanwydd erbyn 2018, ac ymhlith grwpiau sydd dan fygythiad arbennig — yr hen, y sâl a'r methedig sy'n 85% ohonynt — erbyn 2010. Methodd y £100 miliwn a wariwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ers 2000 i wella amgylchiadau ynni tua 100,000 o gartrefi Cymreig i atal y llif.



**Erthygl gan GORDON JAMES Cyfeillion Y Ddaear Cymru**

Mae dogfen drafod Llywodraeth y Cynulliad yn cysylltu'r cynnydd diweddar mewn tlodi tanwydd yn uniongyrchol â chodiad costau ynni, gyda'r swyddi a gollwyd oherwydd y crebachiad ariannol hefyd yn effeithio rhywfaint.

Amcangyfrifwyd bod codiad o un y cant mewn costau ynni yn gwthio 40,000 mwy o bobl i dlodi tanwydd ym Mhrydain. Bydd codiad graddol prisoedd tanwydd yn gwaethygu o ganlyniad i fesurau i ddelio â newid hinsawdd — amcangyfrifwyd y bydd Cynllun Trosiant Carbon Isel Llywodraeth y DG yn codi biliau ynni o ddeg y cant erbyn 2020.

Ond y ffordd orau i gael gwared â thlodi tanwydd yw trwy wella effeithlonrwydd ynni'n sylweddol yng nghartrefi'r tlawd tanwydd. Gan fod ein cartrefi'n allyrru 27% o'r allyriadau sy'n achosi newid hinsawdd, mae hi hefyd yn ffordd effeithiol o ddelio â hyn. A dweud y gwir, mae astudiaethau'n dangos mai dyma'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o'i gwneud.

Mae adroddiad, **Home Truths**, gan Brifysgol Rhydychen, a gomisiynwyd gan Gyfeillion y Ddaear yn 2007, yn cynnig cynllun gweithredu 10 pwynt fyddai'n torri allyriadau o 80% erbyn 2050, ac yn dod â thlodi tanwydd i ben. Codwyd un o'i awgrymiadau, i sefydlu 'ardaloedd carbon isel' mewn ardaloedd difreintiedig, gan Lywodraeth Cymru gyda'i gynnig i wella effeithlonrwydd ynni'n sylweddol mewn 40,000 o dai ym Mlaenau'r Cymoedd.

Mae mesurau tebyg hefyd yn ffordd ardderchog o greu swyddi. Byddai rhaglen i wella cartrefi'r tlawd tanwydd ym Mhrydain yn creu dros 35,000 o swyddi.

Roedd maniffesto etholiadol pob un o'r pedair prif blaid wleidyddol, ynghyd â'r Blaid Werdd, yn gwneud ymrwymiad cadarn i wella effeithlonrwydd cartref. Mae hyn i'w groesawu, ond rhaid iddynt hefyd gydnabod na fydd gwaredu tlodi tanwydd yn rhad, ac y bydd angen gwario llawer o arian y trethdalwyr.

Byddai hyn yn wariant ariannol doeth mewn termau dynol, amgylcheddol ac economaidd. Fel mae CEODHAS, y Trefniant Tai Cymdeithasol Ewropeaidd, yn dangos, byddai £1 o fuddsoddiad mewn ynni effeithlon yn arbed 45c o wariant iechyd.

Ac fel mae un o brif economegwyr y byd, yr Arglwydd Stern, wedi dangos, os methwn â buddsoddi mewn torri allyriadau nwyon tŷ gwydr nawr, bydd y gost ariannol yn fwy o lawer yn y dyfodol agos. ☐

# ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR

**Pigion amrywiol 2 fis**

### AS GWYRDD

GWNAED hanes etholiadol wrth i Carolina Lucas ASE ennill y sedd gyntaf i Blaid Werdd Lloegr a Chymru yn Senedd San Steffan. Cipiodd etholaeth Brighton Pavilion oddi wrth Lafur yn Etholiad Cyffredinol mis Mai, gyda 16,238 o bleidleisiau yn erbyn 14,986. Mae gan Blaid Werdd yr Alban sedd eisoes yn Senedd yr Alban.

### CYTUNDEB

WEDI degau o flynyddoedd o brotestio yng Nghanada, mae grwpiau amgylcheddol wedi dod i gytundeb gyda chwmnïau torri coed i achub ardal goediog enfawr. Honnir mai dyma yw'r cytundeb gwarchod fforestydd mwyaf erioed. Bydd torri coed a chodi ffyrdd yn dod i ben ar unwaith ar bron i 71 miliwn erw o goedwigoedd sy'n storio biliynau o dunelli o garbon ac sy'n gynefin hynod bwysig i fywyd gwyllt . Y bwriad yw datblygu arferion cynaladwy i'r diwydiant ymhen tair blynedd.

### CYMORTH AVATAR

CYHOEDDODD James Cameron, cyfarwyddwr y ffilm hynod lwyddiannus **Avatar**, ei fod yn cefnogi pobloedd y Xingu yn Brazil yn eu brwydr yn erbyn prosiect ynni dŵr Belo Monte sy'n bygwth eu fforestydd. "Os codant y gronfa hon," meddai un o'r arweinwyr lleol wrth gwrdd â Cameron, "bydd ein plant yn marw." Atebodd Cameron, "Rydym yma i helpu mewn unrhyw ffordd bosibl."

### OLEW KIT-KAT

YN Lausanne, y Swisdir, cynhaliodd Greenpeace brotest yn ystod cyfarfod blynyddol cwmni Nestlé. Mae'r mudiad yn galw ar Nestlé i beidio â phrynu olew palmwydd ar gyfer Kit-Kat gan gwmnïau sy'n difrodi fforestydd yn Indonesia. Mae chwalu'r coedwigoedd yn rhyddhau allyriadau carbon enfawr ac yn dinistrïo cynefinoedd anifeiliaid fel yr orangutan.

### NESA' - I'R ARCTIG!

CYHOEDDODD cwmni Shell eu bod yn dymuno tyllu am olew am y tro cyntaf ym Môr yr Arctig, er galwadau arnynt i oedi oherwydd trychineb Gwlff Mecsico. Eu nod yw tyllu ym moroedd Chukchi a Beaufort lle honnir bod 27biliwn baril o olew a nwy ar gael.

### 'NA!' MEDD ARNIE

YNG Nghaliffornia, cyhoeddodd y Llywodraethwr Arnold Schwarzenegger ei fod yn atal cynlluniau i dyllu am olew oddi ar arfordir ei dalaith yn wyneb difrod BP.

### TRAWS BLEIDIOL

SEFYDLWYD Grŵp Traws Bleidiol Bioamrywiaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Nod y Grŵp fydd i ehangu gwybodaeth am bwysigrwydd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol amddiffyn yr amgylchedd naturiol — yn enwedig yn ystod eleni, sef Blwyddyn Ryngwladol Bioamrywiaeth. Cefnogir y Grŵp gan fudiadiadau sy'n rhan o Gyswllt Amgylchedd Cymru.

### TYFIANT NEWYDD

MEWN sawl talaith yn America, mae tiroedd cyhoeddus — e.e. ymylon ffyrdd, neu lawntydd prifysgolion — yn cael eu defnyddio'n gynyddol i dyfu planhigion i wneud tanwydd biodiesel. Mae cymaint â 10miliwn acer o lecynnau addas ar gyfer hyn ledled yr UD. Caiff groeso gan rai fel ffordd o godi tanwydd biodiesel heb ddinistrio tiroedd lle tyfir bwyd.

### GWRTH NIWCLEAR

YN ôl amcangyfrif yr heddlu, cymerodd dros 100,000 o bobl ran mewn protest gwrth-niwclear yn ninas Hambwrg, yn yr Almaen, ar 25 Ebrill. Roedden nhw'n tynnu sylw at beryglon y diwydiant wrth nodi 24 mlynedd ers damwain Chernobyl yn Iwcrain.

# Colli cyswllt â natur yn achosi anhwylderau meddyliol ledled y byd?



Erthygl gan
DR CHARLOTTE DAVIES

**Ydy'r *'Colli iaith a cholli urddas'* a 'r *'Colli tir a cholli tyddyn'* (Harri Webb) sy'n chwalu *'Cydymdreiddiad tir â iaith'* (J.R. Jones) yn arwain at gyflwr 'Solastalgia' yng Nghymru?**

**YN ei nofel *Return to Laughter*, mae'r anthropolegydd Laura Bohannan yn disgrifio ymdrechion y bobl Affricanaidd roedd hi'n eu hastudio i'w chynorthwyo i ddysgu eu hiaith.**

Wrth gyrraedd uchafbwynt ei gwers gyntaf, daethpwyd â dwsenni o ddail ati, gan ddisgwyl iddi ddysgu enwau'r planhigion a'u defnydd.

Er ei sgiliau wrth gofio enwau pobl a llefydd, methodd Bohannan yn lan pan ddaeth yr amser iddynt ei holi am y planhigion. Roedd ei hanhawster yn gwbl anghredadwy mewn cymdeithas ble roedd pawb, gan gynnwys y plant lleiaf, yn gwybod enwau, natur a defnydd cannoedd o blanhigion.

Mae hanesion tebyg gan sawl anthropolegydd sy'n ceisio deall cymdeithas a diwylliant pobloedd frodorol ledled y byd. Maent yn dangos cymaint mae pobl gwledydd datblygedig y Gorllewin wedi ymbellhau oddi wrth byd natur.

### CALON Y MEDDWL

Daeth nifer o seicolegwyr i'r casgliad bod ein hymwahaniad o fyd natur yn niweidiol i ni, ac yn achosi salwch meddwl difrifol. Syniadau'r hanesydd Thomas Roszak yn ei lyfr *The Voice of the Earth* oedd yn arloesol yn hyn o beth. Meddai Roszak, 'Yr isymwybod ecolegol yw calon y meddwl' a bod 'Perthynas synergyddol rhwng lles personol a lles planedol'.

Profodd Glenn Albrecht, athronydd ac Athro Cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Murdoch yn Perth, Awstralia, enghraifft drawiadol o'r salwch meddwl sy'n ganlyniad i'r bygythiadau i'r perthynas hwn. Tuag wyth mlynedd yn ôl dechreuodd yr Athro Albrecht dderbyn galwadau am help gan bobl yr Upper Hunter Valley yn ne-ddwyrain Awstralia. Yn ardal a fu'n enwog am ei gwyrddni prydferth, roedd y dyffryn bellach yn cael ei ddifetha gan gloddio glo brig.

Daeth Albrecht i'r farn bod pobl Dyffryn Hunter yn dioddef nid yn unig oherwydd eu profiadau wrth fyw dan amgylchiadau anodd — y llwch a'r sŵn a'r llygredd oedd yn ganlyniad i'r mwyngloddio — ond hefyd oherwydd cyflwr seicolegol y rhoddodd yr enw *'solastalgia'* arno. Cyfuniad yw'r enw *'solastalgia'* o'r gair Lladin *solacium* am gysur a'r gair Groegaidd *algia* am salwch, sef niwed i'r ymdeimlad o fod yn gysurus gartrefol.

Mae symtomau *solastalgia* i'w gweld, er enghraifft, yn nheimladau pobloedd frodorol sydd wedi colli eu tir, sef teimlad o ddryswch trist wrth gael eu symud o ardaloedd eu hynafiaid, o'u cynefin. Ond yn achos Dyffryn Hunter, nid gadael eu hardal oedd y broblem i'r bobl ond bod eu hardal yn newid ac yn dirywio o'u cwmpas. Roeddynt yn profi math o hiraeth, ond heb adael eu cartrefi.

Mae'r profiad hwn, wrth gwrs, yn ein hatgoffa o esboniad yr athronydd o Gymro, J R Jones, am yr hyn y cyfeiriodd ef ato fel 'cydymdreiddiad tir Pobl â'u hiaith.' Credai'r Athro Jones ei hun fod diflaniad yr iaith Gymraeg o ardaloedd ledled Cymru yn achosi dioddefaint meddyliol – nid oherwydd bod y Cymry'n gadael eu gwlad ond oherwydd eu bod yn gweld eu gwlad yn eu gadael nhw.

Dyna graidd yr ing a geir ym mhenillion Harri Webb sy'n cyfeirio at *'Colli iaith a cholli urddas ... Colli tir a cholli tyddyn.'*

Wrth gofio bod iaith a diwylliant pobl frodorol yn rhan annatod o ecoleg y ddaear, mae'n debyg bod yr anhwylder ysbrydol a brofir gan bobl wrth golli iaith yn enghraifft arall o *solastalgia*.

Honna eco-seicolegwyr fod *solastalgia* yn gyflwr byd-eang. Fe all godi, meddant, wrth i bobl wynebu dirywiad eu hamgylchedd o ganlyniad i gamdriniaeth o'r Ddaear a chamddefnydd o'i hadnoddau. Wrth weithio gyda dioddefwyr unigol, ceisiant adfywio'r ymwybyddiaeth o'r perthynas dau gyfeiriad â'r amgylchedd yn eu hisymwybod ecolegol, gan gau'r hollt rhwng yr unigolyn a byd natur.

### GWANHAU'R CYSWLLT

Eu gobaith yw y bydd hyn yn magu ymdeimlad o gyfrifoldeb moesol tuag at y Ddaear tebyg i'r cyfrifoldeb moesol y teimlwn tuag at bobl — gan arwain at weithredu i warchod y blaned.

Felly, wrth i ni wneud dewisiadau sy'n gwanhau'n cyswllt â byd natur — dilyn ffasiynau megis gosod pafin dros ein gerddi blaen neu fynnu teithio pobman mewn ceir ac awyrennau — rydyn ni nid yn unig yn cam-drin y Ddaear, ond hefyd yn niweidio'n meddyliau ein hunain.

Mewn brawddeg, mae ein hiechyd meddyliol yn dibynnu ar fagu perthynas agos ac iach â byd natur. □

► **Mwy o wybodaeth:** www.nytimes.com/2010/01/31/magazine

---

**ADOLYGIAD: CROESAWU DAU LYFR SYDD Â'R DDAEAR YN GANOLOG**

## Genre newydd i lenorion Cymraeg?

Y Dŵr, Lloyd Jones (Y Lolfa, Talybont)
Cartre'n y Cread, Donald Evans (Gwasg Gomer, Llandysul)

**CROESO brwd i'r ddwy gyfrol hon. Maent yn cynnig difyrrwch, sylwedd a neges. Gallant brofi'n hwb i *genre* newydd o ysgrifennu gan lenorion Cymraeg eraill os dônt hwy, hefyd, i deimlo bod ffawd y Ddaear yn bwnc canolog i'n hoes ni.**

**Yn ei nofel** Y Dŵr**, mae Lloyd Jones yn portreadu ymdrechion teulu Cymraeg a llanc Pwylaidd i ddal gafael ar fywyd ar fferm fynydd anghysbell Dolfrwynog yn wyneb chwalfa gymdeithasol.**

**Llwydda'r awdur i greu awyrgylch iasol arbennig iawn sy'n gafael yn dynnach wrth i'r stori symud at ei therfyn brawychus.**

**Cefndir yr hanes yw methiant**

PARHAD AR DUDALEN 8

**ADRODDIAD GAN SIONED HAF — AELOD O BROSIECT GAN *Y GWASANAETH GWIRFODDOL EWROPEAIDD* I GYNORTHWYO CYMUNEDAU GWLEDIG YN NWYRAIN EWROP SY'N DIRYWIO OHERWYDD COLLI GWASANAETHAU ...**

# Wynebu diboblogi ym Mwlgaria

**AR WAHÂN i'r faith fy mod yn ymwybodol ei bod yn rhan o system Gomiwnyddol dwyrain Ewrop tan ddiwedd yr 80au, nid oeddwn yn gwybod llawer am Fwlgaria, ei phobl a´u diwylliant. Mwy o reswm felly i mi godi pac, ac ymuno â´r prosiect yn Rhagfyr 2009.**

Datblygu cynaliadwyedd ydy thema´r prosiect sydd wedi ei leoli mewn pentref â phoblogaeth o 800 o bobol o´r enw Ravnogor ym mynyddoedd y Rodopi yn Ne Bwlgaria.

Pwrpas y prosiect ydy datblygu canolfan gymdeithasol i bobl ifanc yr ardal, rhedeg gweithdai ynglŷn â chynaliadwyedd, codi ymwybyddiaeth ynglyn â rheoli gwastraff a chynnal digwyddiadau diddorol. Y gobaith yw annog cyfraniad ganddynt i´r gymuned, eu helpu nhw i sylweddoli´r budd o fyw mewn cymunedau gwledig, ac i ddeall sut y gallent gyfrannu i´r bywyd hwn.

Daw fy nghyd wirfoddolwyr o bentrefi gwledig yn Sbaen, yr Eidal, Serbia ag Armenia. I gyd dan 30 oed, maent yn dod â llawer o brofiad ac egni i´r prosiect wrth gydweithio gyda syniadau a dyheadau pobol ifainc yr ardal.

Fel sy'n digwydd ar hyd a lled y byd, mae sawl cymuned wledig ym Mwlgaria yn diboblogi, gyda'u pobl ifainc yn symud i´r dinasoedd. Mae Cymru ei hun yn profi´r un argyfwng, lle mae diffyg adnoddau, diffyg digwyddiadau diwylliannol cyffrous a diffyg gwaith yn golygu bod pobl yn mudo i´r trefi neu'r dinasoedd.

### PENTREFI'N DIFLANNU

Mae Bwlgaria'n colli cenhedlaeth o´u hieuenctid, nid yn unig i´r brifddinas, Soffia, ond, ers i Fwlgaria ymuno â´r Undeb Ewropeaidd yn nechrau 2007, i wledydd tramor. Yn ystod y cyfnod rhwng cwymp Comiwnyddiaeth yn nwyrain Ewrop ac aelodaeth Bwlgaria yn yr UE, mae'r wlad wedi colli dros filiwn o'i phoblogaeth wreiddiol wrth i bobl fentro allan o du ôl i'r llen Sofietaidd i fywyd 'gwell' y gorllewin.

Yr ardaloedd sydd wedi eu heffeithio mwyaf, heb os, ydy ardaloedd gwledig y wlad. Mae 'na esiamplau yma o bentrefi gwledig sydd wedi diflannu'n gyfan gwbwl, gydag ond adfeilion yn weddill. Oherwydd diffyg gwasanaethau cymdeithasol sylfaenol, ysgolion pentrefol, trafnidiaeth gyhoeddus, a thlodi, mae pobol yn gadael eu pentrefi i chwilio am well fywyd yn y dref neu'r pentref poblog agosaf.



**Adroddiad gan SIONED HAF**

A dyna'r sefyllfa yma ym mhentref Ravnogor.

Mae mwyafrif poblogaeth y pentref yn gweithio ar y tir yn tyfu tato, sef un o brif gnydau'r wlad. Yn wir, mae´r pentref yn dathlu Dydd y Tato pob blwyddyn ym mis Hydref.

Cafodd ysgol gynradd Ravnogor ei chau flwyddyn yn ôl. Yn sgil hyn, gadawodd llawer o bobol ifainc y pentref er mwyn magu eu plant nhw mewn ardal lle mae´r gwasanaethau cymdeithasol yn ddigonol.

### MANTEISION Y WLAD

Er hyn, mae llawer o bobl ifainc sy´n wreiddiol o´r ardal yn dod adref i helpu eu teuluoedd ar benwythnosau. Y bobl ifainc yma yw targed ein prosiect gyda'r Gwasanaeth Gwirfoddol Ewropeaidd wrth i ni baratoi nosweithiau cymdeithasol a gweithdai i hybu datblygiadau cynaliadwy a thrafod y manteision o fyw a buddsoddi amser yn y cymunedau gwledig. Nid yw´n fater syml o bell ffordd i weithio gyda´r gymuned i ddatrys problemau o'r fath.

Anodd rhagweld pa effaith gawn ni fel gwirfoddolwyr y prosiect yn ystod ein saith mis yn y pentref.

Dyn ni'n gobeithio gallwn ni godi brwdfrydedd ymysg pobol ifainc yr ardal, ac y byddwn ni'r gwirfoddolwyr yn cael ein hysbrydoli i fynd ati i gyfrannu i´n cymunedau ninnau pan ddychwelwn adref.

Yn wir, fy ngobaith i fy hun yw mynd ati i gynllunio prosiect cymdeithasol yng Nghymru unwaith i mi ddychwelyd. ☐

**► Daw Sioned Haf o Langadog, Sir Gaerfyrddin, a bu'n Swyddog gyda Chymdeithas yr Iaith Gymraeg. Gwybodaeth am y Gwasanaeth Gwirfoddol Ewropeaidd: http://www.icpwales.org/evs2welsh.html. Mwy am Ravnogor: http://www.ravnogor.info/**

## ADOLYGIAD

## LLYFRAU SY'N EIN HATGOFFA O BWYSIGRWYDD EIN PLANED

PARHAD O DUDALEN 7

**dynoliaeth i fyw mewn cytgord a'r blaned, ond dim ond cyfeiriadau byr ac awgrymog sydd at ganlyniadau enbyd hynny.**

**Y stori ganolog yw sut mae'r teulu'n ymateb, a beth a ddaw ohonynt, wrth i lif Trywerynaidd y môr godi o'u hamgylch a holl sylfeini bywyd arferol ddisgyn yn ddarnau o'u cwmpas.**

**I'r Prifardd Donald Evans, yn ei gyfrol** Cartre'n y Cread, **y cefndir yw'r stori – y Fam Ddaear yr ydym fel pobl fodern mor ddi-hid ohoni. Mae is-deitl ei waith yn esbonio'r cynnwys, sef** Cerddi Moliant i'r Fam Ddaear, **ac ar dudalen 5 o'r rhifyn hwn o'r** Papur Gwyrdd **mae Donald yn esbonio'i gymhellion mewn modd ysbrydoledig.**

**O deimlo clymau cytgord y cread, defnyddio mesurau cynganeddol mae'r bardd i bortreadu'r cariad dwfn a deimla at y blaned sy'n gartref ac yn gynhaliaeth i bawb ohonom ond sydd dan fygythiad cynhesu byd-eang.**

**Dywed broliant y gyfrol am Donald, sy'n hanu o Dalgarreg, Ceredigion, fod y 'bygythiad hwnnw'r un mor real i ffermwyr ei filltir sgwâr ag ydyw i eirth yr Arctig bell.'**

**Dyma gerddi sy'n talu'n hael eu hastudio fel mynegbyst i ffordd gariadus o fyw. Dyfynnaf bennill sy'n enghraifft o allu Donald i gyflwyno pwysigrwydd y Fam Ddaear i'n bodolaeth fel pobl:**

**Tarddle sy'n gartre' i gyd –**
**Rhyfedd o gartre' hefyd:**
**Dydi'n goleuni a'n gwyll**
**A'n hangor yn ehangwyll**
**Y gofod, droedle gafael**
**Yn un tŷ o blaned hael.**

**Diolch i Lloyd Jones a Donald Evans am ein hatgoffa mewn ffyrdd mor gelfydd o bwysigrwydd y blaned y mae ein traed yn sefyll arni — ac o'r angen i'n pennau gofio hynny.**

**H.D.**

## Beth sy'n 'normal' ynglŷn â Thwf Economaidd?

"Rydyn ni wedi cael 125,000 cenhedlaeth o bobl, ond dim ond yr 8 olaf sydd wedi profi Twf [economaidd] … Felly, beth sy'n *normal* ? Dw i'n credu ein bod yn byw mewn cyfnod anghyffredin iawn. Mae arwyddion yn codi ymhob man nad yw'r wasgfa y rhoddwn ar yr amgylchedd naturiol yn gallu cael ei chynnal." ***Peter Victor, Economegydd, Prifysgol Toronto, Mother Jones, Meh 2010***

### GWEITHDY CYMRAEG AR NEWID HINSAWDD — A'R IFAINC YN TRAFOD …

# Sut gyflwynwn newyddion drwg?

**BETH fydd goblygiadau newid hinsawdd i beryglon naturiol yng Nghymru yn y dyfodol?**

Dim ond un o restr helaeth o gwestiynau a ofynnwyd gan ddisgyblion ysgol Blwyddyn 12 i Dr Siwan Davies, Darlithydd yn Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Abertawe, mewn gweithdy arbennig a gynhaliwyd fel rhan o weithgarwch Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth a Pheirianneg 2010.

Nod y gweithdy oedd trafod themâu dan y testun **Newid Byd-eang: Bygythiadau Byd-eang** gan roi'r cyfle i ddisgyblion ymchwilio i effeithiau newid hinsawdd ar ddigwyddiadau megis tywydd eithafol, codiad yn lefel y môr a thannau gwyllt.

Roedd Iolo ap Dafydd, Gohebydd Amgylcheddol y BBC wrth law yn ystod y dydd i gynghori ar sut orau i drosglwyddo'r wybodaeth wyddonol hyn i'r cyhoedd, mewn modd dealladwy ag sy'n dal sylw.

Cafodd y disgyblion, o ysgolion lleol Bryntawe, Gŵyr, Maes yr Yrfa ac Ystalyfera, flas ar weithio mewn amgylchedd Prifysgol a chyfle i drin a thrafod Newid Hinsawdd, un o fygythiadau mwyaf yr unfed ganrif ar hugain, yn Gymraeg.

Rhannwyd pawb i grwpiau ar ddechrau diwrnod a'r disgyblion yn cael y cyfle i gydweithio â chyfoedion nad oeddynt wedi cwrdd o'r blaen. Ffrwyth gwaith y gweithdy oedd bod y grwpiau yn cyflwyno hysbyslun oedd yn sôn am raglen deledu fyddai'n ymdrin â'r perygl naturiol oedd dan sylw. Rhaid oedd hefyd cyflwyno datganiad i'r wasg i gyd-fynd ar hysbyslun.



**Grŵp buddugol y gweithdy** Newid Byd-eang: Bygythiadau Byd-eang**, yn cynnwys disgyblion o ysgolion Bryntawe, Gŵyr, Maes yr Yrfa ac Ystalyfera, yng nghwmni Dr Siwan Davies, Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Abertawe ac Iolo ap Dafydd, Gohebydd Amgylcheddol y BBC.**

**Adroddiad gan**
**ENFYS EVANS**
**Canolfan Edward Llwyd**

Yn ystod cyfnod ymchwilio'r grwpiau roedd cyfle iddynt gyfweld ag arbenigwr yn y maes, sef Dr Siwan Davies. Bu hwn yn gyfle da i ddatblygu sgiliau cyfweld a rhaid oedd wedyn bwrw ati i ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd mewn ffordd effeithiol.

Ffilmiwyd y cyfweliadau gan Iolo ap Dafydd ac roedd y grwpiau yn medru defnyddio'r clipiau yn rhan o'u hysbyslun terfynol. Yn ogystal, gwnaed defnydd da o gerddoriaeth a delweddau gan y grwpiau i dynnu sylw at y perygl naturiol oedd yn ffocws i'w hysbyslun.

Yn ystod y dydd dyfarnwyd marciau i'r grwpiau wrth iddynt gwblhau'r amrywiol dasgau. Un marc oedd yn gwahaniaethu'r grwpiau ar ddiwedd y dydd. Grŵp 'Sianel ITV' aeth â'r wobr gyntaf gyda'i hysbyslun hwy oedd yn canolbwyntio ar godiad yn lefel y môr a 'Sianel Sky' yn ail agos gyda'i ymdriniaeth hwy o berygl tywydd eithafol.

Dywedodd Dr Siwan Davies, 'Dyma oedd cyfle unigryw i ddisgyblion ysgol fynd i'r afael â materion gwyddonol ac amgylcheddol yn y Gymraeg a phrofi rhai o'r sialensiau o gyflwyno a chyfleu'r wybodaeth yma ym maes y cyfryngau.

'Wedi gweithio yn erbyn y cloc i ymchwilio a chynnal cyfweliadau, cafwyd cyflwyniadau penigamp gan y disgyblion'.

Dywedodd Meleri Williams, athrawes daearyddiaeth ym Maes yr Yrfa, 'Cafodd y disgyblion gyfle gwych i fanteisio ar wybodaetharbenigwyr ym maes Daearyddiaeth ynghyd â derbyn profiadau gwerthfawr o gyfarfod a gweithio mewn grwpiau gyda disgyblion o ysgolion eraill.

'Rwy'n siŵr y bydd y cyfleoedd hyn o ddefnydd iddynt yn y dyfodol.'

Cynhaliwyd y gweithdy gan Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Abertawe mewn cydweithrediad â Chanolfan Edward Llwyd.

Mae'r Ganolfan yn cefnogi Prifysgolion Cymru wrth iddynt ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr ym maes y Gwyddorau.

Yn ogystal noddwyd y gweithdy gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Research Councils UK. ☐

## Rhandir newydd i Abergwaun



**MAE creu mwy o randiroedd i dyfu llysiau a ffrwythau lleol yn profi'n rhan bwysig o ymgyrchoedd cymunedau Trefi Trawsnewid sy'n cael eu sefydlu ledled Cymru a gwledydd eraill Prydain – a'r mwyaf diweddar ohonynt yw rhandiroedd Abergwaun, Sir Benfro.**

**Bu tref ac ardal Abergwaun heb randir ers llawer o flynyddoedd. Ond mae haelioni teulu'r diweddar Elwyn Lloyd-Williams yn golygu bod hynny i newid, datblygiad sydd wedi derbyn croeso gan aelodau cangen Transition Bro Gwaun.**

**Mae cadeirydd y gymdeithas rhandirwyr newydd, y Cynghorydd Dai Williams, yn siŵr y bydd angen mwy nag un ohonynt: "Mae hyn yn newyddion ardderchog," meddai. "Rwy'n hyderus y bydd angen mwy o randiroedd o gwmpas y dref yn wyneb y galw ac i osgoi gorddefnydd o geir."**

**Medd Tom Latter, aelod o Transition Bro Gwaun, "Byddwn yn parhau i roi pwysau ar Gyngor Sir Benfro i drefnu bod mwy o randiroedd yn cael eu creu yn agos at ddatblygiadau trefol."**

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd

**Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**



## RHANNU SGILIAU

CYNHELIR **Diwrnod Rhannu Sgiliau** gan fudiad Trawsnewid Cwm Gwendraeth yn Neuadd Pontiets ar ddydd Sadwrn, 5 Mehefin, rhwng 11yb a 4yp. Bydd cyfle trafod coginio bwyd gwyllt, gwneud bara, gweu helygen, gweithio gyda gwlan, myfyrio, gofalu am wenyn – a mwy.

**► Mwy gan Rebecca Storch ar rs@rebeccastorch.com**

## DYSGU CREFFTAU

MAE Prosiect **Down-to-Earth** ym mhentref Murton ym Mhenrhyn Gŵyr yn cynnal amrywiaeth o gyrsiau sy'n cynorthwyo pobl i fyw mewn perthynas creadigol â'r Ddaear trwy ddefnyddio dulliau traddodiadol o adeiladu. Dyma'r cyrsiau adeiladu a gynhelir yn ystod y misoedd nesaf :

**5 - 6 Mehefin** - Adeiladu gyda byrnau gwellt; **19 Mehefin** - Creu ffensys wrth hollti derw; **29 - 30 Mehefin** - Adeiladu gyda chlom; **17-18 Gorffennaf** - Adeiladu Cwryglau; **27 - 28 Gorffennaf** - Datblygu Cynaladwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang gyda gweithgaredd awyr agored; **29 Gorffennaf** - Profiad *Down-to-Earth*; **9 -13 Awst** - Adeiladu gyda byrnau gwellt; **19 - 20 Awst** - Defnydd therapiwtig o'r awyr agored; **24 - 25 Awst** - Profiad Dros-Nos *Down to Earth.*

**► Cysylltwch â: Prosiect Down-to-Earth, 72A Manselfield Road, Murton, Abertawe SA3 3AP, ffôn 01792 346566, ebost info@downtoearthproject.org.uk**


## HYSBYSEBWCH YN Y PAPUR GWYRDD

**Am *Garden Costau Hysbysebion* Y Papur Gwyrdd, ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com neu ffoniwch 01792 798162 . Archebion erbyn 28 Mehefin ar gyfer rhifyn Awst / Medi**


## TRYDAN LLEOL

SUT allwn ni greu trydan a gwres adnewyddol yn ein dinasoedd a threfi? Dyna'r cwestiwn fydd yn cael ei ateb gan gwrs hyfforddi yng Nghanolfan Cartref Eco, Caerdydd, rhwng 6 ac 8yh ar nos Fawrth, 1 Mehefin a 14 Gorffennaf.

**► Mwy o wybodaeth gan Ian ar training@rounded-developments.org.uk, neu wrth ffonio 02920 373094.**

## AGOR SEFYDLIAD

BYDD digwyddiad o bwys mawr yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen yng Nghorris, ger Machynlleth, ar ddydd Iau, 10 Mehefin, gydag agoriad swyddogol Sefydliad Cymru ar gyfer Addysg Gynaliadwy. Bydd yr Arglwydd Elis-Thomas, Jane Davidson AC, a Syr John Houghton i gyd yno i arwain y dathlu.

## DEALL YR HINSAWDD

BYDD cyfle i **Wneud Synnwyr o Newid Hinsawdd** ar gael yng nghanolfan Amgylchedd Abertawe ar bnawn Sadwrn, 12 Mehefin. Rhwng 1 a 4 yp ceir cyflwyniadau ar lafar ar y pwnc - ac ar ffilm gan George Monbiot a Mark Lynas - gyda'r nod o gyflwyno dealltwriaeth o brif ffeithiau gwyddoniaeth cynhesu byd-eang. Bydd trafodaethau'n cynnig syniadau clir ynglŷn â'r hyn y gellir ei wneud wrth geisio'i ffrwyno.

**► £15 i unigolion. Cysylltwch â James Milligan, ffôn 01792 480200, e-bost bookings@environmentcentre.org.uk**

## CYNGOR YNNI

BYDD mudiad Trawsnewid Bro Gwaun yn cynnal **Dydd Ynni** ar ddydd Iau, 17 Mehefin, yn Neuadd y Santes Fair, Abergwaun, gan ddechrau am 2 o'r gloch. Ceir gwybodaeth a chyngor gan staff stondinau arddangos a bydd lluniaeth ar gael. Cynhelir sesiwn drafod Hawl i Holi am 7.30 yh.

**► Mwy o wybodaeth: tom.latter@btinternet.com**

## DAWNSIO HEDDWCH

CROESO i bawb fynychu **Dawnsfeydd Heddwch Byd-eang** a gynhelir yn rheolaidd yn Neuadd Derwenlas ger Machynlleth. Ysbrydolir y dawnsfeydd gan ddoethineb a datganiadau cysegredig llawer o draddodiadau ysbrydol. Fe'u cynhelir yn fisol y drydedd Wener.

**► Gwybodaeth gan Sandra, ffôn 01650 511513 ac ar wefan http://myweb.tiscali.co.uk/dupderwenlas/**

## BEICIO A BBQ

BYDD mwy o reidio beiciau nag arfer ar Lwybr Afon Taf ar ddydd Sadwrn, 19 Mehefin, wrth i bobl godi arian i *Pedal Power* - elusen sy'n trefnu amrywiaeth o weithgareddau beicio. Y syniad yw i bobl gael eu noddi i reidio'r cyfan o'r llwybr rhwng Caerdydd ac Aberhonddu a nôl (52 milltir), rhwng Caerdydd a Thongwynlais a nôl (12 milltir) neu o gylch Parc Pontcanna. (Dewis rhwydd?) Bydd cyfle ymlacio gyda BBQ.

**► Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Pedal Power ar 02920 390713 neu e-bostiwch jaci.pedalpower@btconnect.com**

## SERO GWASTRAFF

YM Mhen-y-bont ar Ogwr ar ddydd Llun, 21 Mehefin, bydd ein Gweinidog Amgylchedd, Jane Davidson, yn lansio strategaeth newydd Llywodraeth Cymru i leihau o ddifrif ar wastraff, sef cynllun **Tua Sero Gwastraff**.

## LLWYBR CYMRU

CAIFF rhan Llandudno i Brestatyn o **Lwybr Arfordir Cymru Gyfan** ei hagor yn swyddogol ym Mae Colwyn gan Jane Davidson, Gweinidog Amgylchedd Cymru, ar ddydd Iau, 1 Gorffennaf. Gwneir hyn rhwng 12.30 a 1.30yp ger Capel Sant Trillo, Llandrillo yn Rhos.

## SIARAD EFFEITHIOL

OS hoffech gael hyfforddiant ar sut i siarad yn effeithiol ar bwnc **Newid Hinsawdd**, mae Canolfan Amgylcheddol Abertawe yn cynnal cwrs undydd ar eich cyfer ar Ddydd Sadwrn, 3 Gorffennaf.

**► Y gost i unigolion fydd £40 gan gynnwys cinio. Cysylltwch eto â James Milligan, 01792 480200, e-bost bookings@environmentcentre.org.uk**

## BANERI GWYRDD

CYFLWYNIR Gwobrwyon y Faner Werdd i grwpiau cymunedol sy'n edrych ar ôl **Mannau Agored** ar ddydd Mawrth, 20 Gorffennaf, ar faes Sioe Amaethyddol Cymru yn Llanelwedd. Y Gweinidog Amgylcheddol Jane Davidson AC fydd yn cyflwyno'r baneri rhwng 12 ac 1yp.

**CYFRANIADAU GOLYGYDDOL**

**► Croesawn erthyglau, lluniau, ac eitemau newyddion i'r** Papur Gwyrdd **— erbyn 28 Mehefin os i'w hystyried ar gyfer rhifyn Awst / Medi. Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Neu ffoniwch 01792 798162. Llythyrau at 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX.**

# Y byd a'r aelwyd

Golwg 'cartrefol' ar yr ymgyrch 'global'

## GORMOD O GAWODYDD LLEOL?

**BYDDWCH ar bigau drain wrth glywed ein bod fel teulu wedi gwneud penderfyniad arall i geisio lleihau ar y difrod a wnawn i'r Ddaear. Beth, 'wedwch, y tro hwn?**

Wel, fe ddarllenoch yn **Y Byd a'r Aelodwyd** diwethaf **(YPG** 17) ein bod wedi golchi'n dwylo'n ffigurol o fryntni'r glo a'r olew trwy newid at gwmni ynni sy'n cyflenwi dim ond trydan glan o ffynonellau adnewyddol, di-garbon.

Y datblygiad pellach yw ein bod nawr wedi dechrau torri'n llythrennol hefyd ar faint o ymolchi a wnawn, er mwyn arbed ynni.

Bu'n broses syml. Yn lle mynnu cael cawodydd chwe dydd yr wythnos (yr eithriad fu nos Wener am fod honno'n noson 'ymlacio' sy'n golygu ein bod yn cyrraedd yn ôl i'r tŷ'n rhy hwyr neu anghofus i feddwl am gawodydd), rydym wedi cyfyngu hynny i dri neu bedwar.

Efallai bod ein cyfeillion lleol eisoes wedi sylwi — h.y., ein bod o dro i dro bellach yn gwynto fel bodau dynol yn lle poteli persawr. Ond, wnawn ni ddim pryderu am hynny gan gofio'n harbedion ynni!

Wedi'r cyfan, dim ond yn lled ddiweddar y cawsom ein hudo fel pobl gan y diwydiannau dŵr, trydan ac offer cawodydd i gredu bod glendid yn mynnu ein bod yn diflannu'n ddyddiol dan raeadrau yn ein cartrefi yn lle 'molchi'n fwy cynnil.

Gallwn weld rywfaint o gyfiawnhad, efallai, i bobl y chwys wneud hynny: ffermwyr, gwyr yr haearn a'r dur a'r ffatrïoedd. Ond ninnau, bobl y swyddfa, y dosbarth, y siop a'r stiwdio? Go brin. Ffolineb afradlon fu'r holl or-'molchi. A'r gwir yw nad yw'r Ddaear yn gallu ei gynnal mwyach.

► **Wrth gwrs, bydd y rhai bywiog yn eich plith wedi gweld na fyddai angen i ni haneru amlder ein cawodydd petawn yn mynd ati i'w rhannu (fel gyda baddonau yn ystod argyfwng dŵr 1976). Ond, canolbwyntio ar y golchi byddai'r broblem wedyn. Er, cytunwn y dylai Ymgyrch y Ddaear geisio â bod yn llawen.**

## 'HWYL' Y LLWYTH LLYSIAU

ERBYN i chi ddarllen y geiriau hyn, bydd cyflenwad o blanhigion bychain o lysiau amrywiol, organig wedi cyrraedd i'n tŷ ni ac wedi cael eu plannu, gobeithio — wedi cryn oedi oherwydd yr oerni.

Sonion ni'r llynedd, sut lwyddon i ddigio'n hannwyl ferch, Elen, trwy fynd ati gyda chaib, rhaw a rac i greu gerddi llysiau lle bu'r lawnt y tu ôl i'n cartref. Roedd y digwyddiad fel rhan o gyfres deledu **The Good Life** yn y 1970au.

Cawsom hwyl arni, wel, rhywfaint. Dysgasom lawer o bethau pwysig, er enghraifft mai malwod yw gelynion pennaf dynoliaeth (ar wahân i ddynoliaeth). Gardd Fach oedd hon gan Rocket Gardens yng Nghernyw, sef un 10 medr sgwâr. Ar sail y profiad, fe benderfynon ni gael Gardd Fawr eleni, sef 20 medr sgwâr.

Popeth yn iawn, ar wahân i'n diffyg sylw i fathemateg, a hynny er bod gradd mewn mathemateg ymhlith graddau un ohonom! O ganlyniad, sylweddolon ni'n sydyn — yng ngeiriau Apollo 13 — bod "gennym broblem." Sef diffyg lle. Rydym yn optimistaidd y bydd lle i blannu'r rhan fwyaf o'r llysiau, ond na fydd llwybrau ar gael i ni gerdded i'w tendio. Fydd ymbil o bell am drugaredd ar y malwod yn ddigonol?

Yr hyn sy'n braf yw gwybod bod teuluoedd ledled y wlad a'r byd yn wynebu 'problemau' tebyg, sef wrth geisio addasu'n ffordd o fyw er mwyn i'r Ddaear allu parhau i'n cynnal.

***Hywel a Charlotte***

**O.N. Neges at ffrindiau Llangeithio: Mae eich Danadl Poethion wedi gwreiddio'n hapus yng Nghwm Tawe a ninnau wedi mwynhau'r dishgled cyntaf hyfryd o dê o'u dail ir.**

*CYFARFODYDD OXFAM LEDLED CYMRU AR 'GWESTIWN MWYAF EIN HOES'…*

# Gwrandawiadau Hinsawdd yn dangos maint yr her

**PRIN iawn oedd y sylw a roddwyd yn ystod dadleuon yr arweinyddion a chyfnod ymgyrchu'r Etholiad Cyffredinol i faterion y tu hwnt i'r ynysoedd hyn — er gwyddom y bydd angen ymdrech go gadarn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael â chwestiwn a her fawr, os nad mwyaf, ein hoes, sef newid hinsawdd.**



George Monbiot yn annerch yn Aberystwyth

Yn ystod cyfnod prysur o ymgyrchu cyn uwch gynhadledd Copenhagen, ac am gyfnod yn dilyn y cyfarfod siomedig, roedd galwadau, lleisiau a phrofiadau pobl Cymru yn glir ac uchel iawn ar y pwnc: Mae angen gweithredu, a hynny heb oedi.

Trefnwyd cyfres o 'Wrandawiadau Hinsawdd' gan Oxfam Cymru ar hyd a lled y wlad rhwng Tachwedd a Mawrth. O Aberystwyth i Abertawe, Llangefni i Hwlffordd a Chaerdydd.

Bwriad y digwyddiadau oedd cyflwyno a chasglu tystiolaeth am effaith newid hinsawdd ar bobl, boed hynny yma yng Nghymru neu filoedd o filltiroedd i ffwrdd.

Cafwyd esboniadau trwyadl am achosion ag effeithiau gan arbenigwyr yn y maes gan gynnwys George Monbiot, Clive Walmsley a Tavi Murray.

### Rhaid codi llais - a chodi gwrychyn

Ond efallai'r profiadau a'r testament personol oedd yn cydio fwyaf. Siaradodd Wyn Evans, ffermwr o Sir Benfro am ei ymdrechion i drawsnewid ei fferm i fod mor gynaladwy â phosib. Ei reswm a'i benderfyniad oedd fwyaf dirdynnol: allai ddim eistedd yn ôl gan wneud dim byd; rhaid oedd gweithredu.

Yn yr un modd, soniodd James Oxenham am orfod symud o Dde Orllewin Lloegr lle'r oedd yn was ffarm i Gaerdydd i gael gwaith am nad oedd y fferm yn gallu cynhyrchu digon i dalu ei gyflog. Dyma ddechrau gweld a theimlo effeithiau newid hinsawdd yn ein gardd gefn ni.

Crafu'r wyneb yw hyn wrth gwrs yn nhermau effeithiau newid hinsawdd. Yn deillio o'r gwrandawiadau byd eang lle cyfrannodd yr Archesgob Desmond Tutu yn Ne Affrica, a dros fil o bobl yn tystiolaethu ym Mangladesh, mae corff helaeth o brofiadau gennym sy'n dangos gwir effaith dinistriol newid hinsawdd.



Martha Musonzia Holman yn sôn am brofiadau Zimbabwe yn Llangefni

Mae pobl yn colli eu cartrefi, eu gwaith a'u bywydau bellach. Yn wir, mae 300,000 o bobl y flwyddyn yn marw o ganlyniad i newid hinsawdd. Dyna boblogaeth Caerdydd wedi mynd mewn deuddeg mis a Chymru gyfan erbyn 2020.

Dim ond un peth sydd i wneud felly – Dal ati! Rhaid codi llais — a chodi gwrychyn rheiny sy'n gwrthod ceisio rheoli newid hinsawdd ar sail pris neu ddiffyg prawf. Mae'r gost o beidio yn ormod i'w ddychmygu.

**Adroddiad gan Luned Jones, Oxfam Cymru**

Mynnwch gwsg
ym mynwes natur






... gan gynnwys
i'r babi

# Matresi Organig gan Abaca

Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

